

## **Colled synhwyraidd a gwasanaethau iechyd: eich hawliau**

### **Canllaw i bobl fyddar, trwm eu clyw, dall, rhannol ddall a byddarddall sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd**

Rhaid i feddygfeydd, ysbytai a gwasanaethau brys sicrhau eu bod yn cwrdd â'ch anghenion cyfathrebu a gwybodaeth pan fyddwch yn defnyddio gwasanaethau iechyd. Mae'n ofynnol iddynt wneud hyn yn ôl y gyfraith, o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru a GIG Cymru 'Safonau Cymru Gyfan ar gyfer Cyfathrebu Hygyrch a Gwybodaeth i Bobl sydd â nam Synhwyraidd' i helpu gwasanaethau iechyd gydymffurfio â'r gyfraith.

Mae'r canllaw byr hwn yn rhoi gwybod i chi am y gwasanaethau mae gennych hawl i dderbyn fel person â cholled synhwyraidd. Mynnwch eich hawliau!

### **Eich hawliau**

**Mae'r hawliau hyn yn berthnasol i blant, pobl ifanc ac oedolion.**

**Mae'r hawliau hyn yn berthnasol os mai chi yw'r claf neu os ydych yn rhiant neu'n ofalwr i glaf.**

**Ni ddylech chi aros am wasanaeth yn hwy nag unrhyw un arall oherwydd y ffordd yr ydych yn cyfathrebu neu dderbyn gwybodaeth.**

**Gallwch gyfathrebu a derbyn gwybodaeth yn y ffordd rydych yn dewis yn Gymraeg neu yn Saesneg.**

### **Cyfathrebu yn eich ffordd eich hun**

**Dylech gael cyfle i ddweud wrth eich darparwr iechyd sut rydych chi am gyfathrebu a sut rydych yn hoffi derbyn gwybodaeth.**

Fel arfer, bydd hyn yn digwydd pan fyddwch yn cofrestru gyda gwasanaeth newydd. Dylai eich gwasanaethau iechyd presennol hefyd wneud yn siŵr eu bod yn casglu'r wybodaeth hon.

Dylai'r feddygfa neu'r ysbyty gofnodi eich dewisiadau mewn ffordd ymarferol. Er enghraifft, gan ddweud bod angen i chi gael gwybodaeth ysgrifenedig mewn 18pt Arial ar bapur melyn ac eich bod yn darllen gwefusau ac angen lleferydd clir.

Dylai gwasanaethau iechyd sicrhau bod eich anghenion cyfathrebu a gwybodaeth yn cael eu cofnodi ar eu system fel nad oes rhaid i chi ddweud wrthynt bob tro y byddwch yn cael apwyntiad.

Pan fyddwch yn cael eich cyfeirio at wasanaeth iechyd arall, dylai'r gwasanaeth newydd gael gwybod yn awtomatig am eich dewisiadau cyfathrebu a gwybodaeth.

**Unwaith y byddwch wedi dweud wrth wasanaeth beth yw eich anghenion cyfathrebu a gwybodaeth, dylech chi dderbyn y cymorth neu'r addasiad hwn bob tro, pryd bynnag y mae hyn yn rhesymol.**

Mae hyn yn golygu, os oes angen dehonglydd BSL ar gyfer eich apwyntiad, dylid trefnu hyn ar eich cyfer. Efallai na fydd hi'n bosibl i feddygfeydd bach ddarparu gwybodaeth ym mhob fformat ac ar bob achlysur ond dylent geisio darparu'r wybodaeth mewn ffordd y gallwch ei deall bob tro.

Dylai eich nodiadau meddygol ddweud sut rydych chi'n cyfathrebu neu dderbyn gwybodaeth fel bod y gweithiwr iechyd sy'n cynnal eich apwyntiad yn gwybod sut i gyfathrebu'n dda gyda chi.

## **Rho wybod**

**Dylech allu gwneud apwyntiad drwy amrywiaeth o ddulliau. Gallai hyn fod wyneb yn wyneb, trwy e-bost, testun neu drwy wefan.**

Dylech hefyd dderbyn eich llythyr apwyntiad mewn fformat sy'n hygyrch i chi.

**Dylech adael eich apwyntiad yn deall ac yn gwybod yr hyn y mae'r meddyg neu'r nyrs wedi ei ddweud wrthyich chi.**

**Dylai'r holl daflenni gwybodaeth safonol fod ar gael mewn fformatau hygyrch, megis print bras, braille a sain.**

## **Yn yr adeilad**

**Dylai staff yn y dderbynfa cael eu hyfforddi fel eu bod yn gallu cyfathrebu'n dda gyda chi.**

**Dylai'r gwasanaeth sicrhau eich bod yn gwybod pryd mae'ch apwyntiad.**

Efallai bod gan wasanaethau mawr systemau rhybudd clywedol a gweledol sy'n rhoi gwybod i chi pan mai eich tro chi yw hi. Mewn gwasanaethau bach, efallai y bydd aelod o staff yn eich tywys i'ch apwyntiad.

**Dylai fod gan bob derbynfa a stafell ymgynghori system anwytho dolen sain ar gyfer pobl sy'n defnyddio cymhorthion clyw.**

**Dylai fod yn hawdd i chi ddod o hyd i'ch ffordd.**

Dylai arwyddion a chyfarwyddiadau ar y drysau a waliau fod yn glir ac yn hawdd ei deall. Dylai ystafelloedd ddefnyddio goleuo a chyferbyniadau lliw da.

## **Haeddu gwell?**

**Gallwch roi adborth neu nodi pryder am wasanaeth sydd ddim yn bodloni'ch anghenion cyfathrebu a gwybodaeth.**

Os ydych chi'n teimlo eich bod yn gallu, dylech fynegi eich pryder trwy siarad ag aelod o staff ar y pryd. Efallai y byddant yn gallu gwneud newidiadau 'ar y fan a'r lle'.

Gallwch hefyd roi gwybod am bryder yn uniongyrchol i'ch Bwrdd Iechyd Lleol neu drwy gynllun 'Gweithio i Wella' GIG Cymru.

**Gallwch roi adborth neu fynegi pryder am wasanaeth a gawsoch mewn unrhyw ffordd sy'n hygyrch i chi.**

Cofiwch, rydych chi'n gallu rhoi adborth neu fynegi pryder mewn fformat hygyrch am unrhyw wasanaeth - does dim rhaid i'r adborth fod ynghylch gwasanaeth sy'n gysylltiedig â'ch colled synhwyraidd.

## **Dal ddim yn siŵr a ydych yn cael y gefnogaeth gywir?**

Cysylltwch ag un o'r sefydliadau arbenigol hyn a fydd yn eich helpu i fynnu eich hawliau.

**Action on Hearing Loss Cymru:** [wales@hearingloss.org.uk](mailto:wales@hearingloss.org.uk) neu 02920 333 034 (ffôn) 02920 333 036 (ffôn testun)

**RNIB Cymru:** [cymrucampaigns@rnib.org.uk](mailto:cymrucampaigns@rnib.org.uk) neu 029 2082 8500

**Sense Cymru:** [cymruenquiries@sense.org.uk](mailto:cymruenquiries@sense.org.uk) neu 0300 3309 281 (ffôn) 0300 3309 282 (ffôn testun)